Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 18 Rhagfyr 2018

Presennol: J. Roberts (Cadeirydd); S. Edwards; (Is-gadeirydd), A. Mummery, A. Jones, G. Parry, G. C. Jones, R. Meirion Jones; A. Williams; I. Griffiths.

Anwen Le Cras (Clerc dros dro)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
1.1	Hannah Ellis; Mervyn Jones; Hanna Huws; Robin Williams.		
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb**.		
2.1	G. Parry ac A. Jones yn datgan diddordeb mewn unrhyw faterion yn ymwneud a'r Clwb Bowlio		
3.0	**Cyfrifon a Thaliadau Mis Rhagfyr 2018**		
3.1	Biliau band eang i fod i ddod allan o gyfrif y Neuadd Goffa nid y Cyngor Bro.	Clerc I drefnu.	29/01/19
3.2	Adolygu ffyrdd i leihau biliau dŵr y Clwb Bowlio.	Clerc	31/03/19
3.3	Cynigwyd gan A. Mummery, eiliwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.		
4.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
4.1	Fforwm Cyswllt – Cyllideb Cyngor Sir Ynys Môn. Nodwyd bod posibilrwydd o godiad yn y dreth o 7.5% er mwyn arbed torri gwasanaethau. Os bydd y setliad yn uwch na'r disgwyl mae posib fydd y codiad ychydig yn llai na 7.5%. Deiseb gyda dros 300 o enwau wedi'i gyflwyno i'r Cyngor Sir yn gwrthwynebu toriad yn y gwasanaeth bws 43 a 47. Tebygrwydd o dorri'r gwasanaeth o 15 i 8 bws y diwrnod. Toriad o 5% yn y gyllideb i ysgolion.		
4.2	Llywodraeth Cymru – £15miliwn ar gael i hybiau dysgu cymunedol. Datganiadau o ddiddordeb i gyrraedd y Llywodraeth erbyn 4ydd Ionawr. Dewi Williams i gyflwyno datganiad ar ran y Neuadd Goffa.		
5.0	**Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion 27 Tachwedd 2018**		
5.1	Rhai aelodau wedi cael trafferthion agor dogfennau electroneg.	Clerc i anfon dogfennau ar PDF	
5.2	A. Jones, Cynigydd;, G.C. Jones, eilydd. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
6.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
6.1	Trosglwyddo arian gan Ffrindiau Parc y Gors I'r Cyngor Bro.	S. Edwards I gysylltu am ddiweddariad.	

6.2	Lwfans Cynghorwyr. Angen I aelodau benderfynu os ydynt am dderbyn y lwfans a nodi'u penderfyniadau.	Y Clerc i yrru pro forma i'r aelodau.	29/01/19
6.3	Coeden angen ei dorri a'i glirio ger maes parcio'r Gors. Gofyn I'r Contractwr sy'n tynnu'r goeden Nadolig i lawr weithredu arno.	A.Mummery	05/01/19
6.4	Gwaith "PAT Testing" ac atgyweirio yn y Neuadd Goffa a'r Swyddfa.	Y Clerc i greu rhestr o waith i O. Parry	29/01/19
6.5	Cyfrifon y Neuadd Goffa a datganiad i'w cyflwyno I'r Comisiwn Elusennau. Nododd y Clerc bod angen adolygu'r cyfrifon I sicrhau cywirdeb cyn eu cyflwyno.	Y Clerc	28/02/19
6.4	Llythyr i CSYM a'r Heddlu parthed cyflymder ar y ffordd rhwng Llanfairpwll a Four Crosses. Gofynnwyd I'r Clerc nodi nad yw'r asesiad risg presennol yn ystyried teuluoedd sy'n byw yn Ysgubor Hendy. Nodi nad oes arwyddion na goleuadau ger cyffordd Ysgubor Hendy.	Clerc	29/01/19
7.0	**Asesiad Risg a Rheoliadau Cyllidol -** Gohirio tan y cyfarfod nesaf.		
8.0	**Ceisiadau Cynllunio** - dim		
9.0	**Gohebiaeth**		
9.1	Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Statudol		
9.2	Un Llais Cymru – Rhaglen Hyfforddiant		
9.3	Penderfyniad Apêl Cynllunio – Shandy, Lôn Dryll wedi'i wrthod.		
10.0	**Materion Brys**		
10.1	Cwynion wedi'u derbyn ynglŷn â gordyfiant ger Pen Lôn Llan.	R.M. Jones i ofyn i CSYM weithredu	29/01/19 +
10.2	Cyfarfod Blynyddol Medrwn Môn i'w gynnal 24/01/19 yn y Neuadd Goffa.	A. Mummery, A. Jones a G. Parry am fynychu	24/01/19
10.3	Ymgynghoriad Wylfa Newydd	G.C. Jones a H. H. Huws am ymateb.	
10.4	Goleuadau'r Clwb Snwcer. Derbyniwyd 3 pris am y gwaith I'r goleuadau. T. Owen - £2100 & TAW R.J. electrics - £2700 yn cynnwys TAW Gilks - £2750 & TAW Penderfynwyd gofyn i T. Owen weithredu mor fuan â phosib.	Y Clerc I gysylltu â T. Owen.	31/12/18
10.5	Gwasanaeth Carolau i gymryd lle Nos Iau 21ain Rhagfyr.		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 29 Ionawr 2018 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad